

Cynllun Cyhoeddi y Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cynllun Cyhoeddi

Cyflwyniad

Mae [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#) yn rhoi hawl cyffredinol i unrhyw unigolyn weld gwybodaeth gofnodedig sy'n cael ei chadw gan amrywiaeth eang o gyrff yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

O dan Adran 19 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar bob corf perthnasol i gynhyrchu a chadw cynllun cyhoeddi. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi mabwysiadu cynllun cyhoeddi yn seiliedig ar y model a baratowyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ôl y cynllun, mae'n rhaid i gyrff perthnasol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'u busnes arferol.

Yn yr arweiniad hwn, cewch wybod am y math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bob dogfen ac nid oes dolen gyswllt uniongyrchol i bob dogfen sydd ar gael. Er hwylustod, mae'r math o wybodaeth wedi'i rhannu'n grwpiau o ddogfennau sy'n debyg i'w gilydd neu'n gysylltiedig â'i gilydd.

Mae'r rhan helaeth o'r wybodaeth rydym yn ei chynhyrchu ar gael yn electronig yn bennaf. Weithiau, caiff eitemau o wybodaeth eu cyhoeddi ar gopi caled hefyd, fel adroddiadau pwyllgorau a thafleenni.

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel cwmni cyfyngedig drwy warant ym mis Mawrth 2011 ac y mae'n cychwyn ar ei flwyddyn lawn gyntaf ar 1 Awst 2011

Sut i ddod o hyd i wybodaeth

Rydym wedi rhannu'r wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol gan y Coleg yn categorïau eang, fel a ganlyn:

1. Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud;

2. Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario;
3. Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau;
4. Ein polisiâu a'n gweithdrefnau;
5. Rhestrau a chofrestrau;
6. Y gwasanaethau a gynigir gennym.

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi manylion am y mathau o wybodaeth sydd ar gael ym mhob categori a sut i gael y wybodaeth honno. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac nid yw'n rhestr gyflawn o'r holl wybodaeth sydd ar gael gan y Coleg.

Iaith

Cymraeg yw iaith swyddogol y Coleg a gweinyddir ei fusnes o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel arfer mae dogfennau y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio gan y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau ar ein gwefan www.colegcymraeg.ac.uk

Polisi Codi Tâl

Byddwn yn ceisio darparu'r holl wybodaeth am ddim.

Cael Gwybodaeth

Caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael ei chyhoeddi ar wefan y Coleg www.colegcymraeg.ac.uk. Mae'r Coleg yn anelu at weithredu mewn modd amgylcheddol gyfeillgar, ac yn osgoi cynhyrchu deunyddiau ar ffurf copïau caled oni bai bod angen, neu alw penodol i wneud hynny. Yn achos y sawl nad sydd â mynediad i'r rhyngwyd, gellir darparu copïau caled o ddogfennau neu wybodaeth sydd ar gael ar ffurf electronig yn unig, drwy gysylltu â swyddfa'r Coleg.

Hawlfraint

Caniateir i ddeunyddiau gael eu hatgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y cânt eu hatgynhyrchu'n fanwl gywir ac na chânt eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai hawlfraint y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cwynion

Os ydych wedi cael trafferth cael gafael ar wybodaeth a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dylech gysylltu â Rheolwr Cyfathrebu'r Coleg.

Os nad ydym wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn yn foddhaol yn eich barn chi, dylech gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House Ffacs: 01625 545 510
Water Lane
Wilmslow
Swydd Caer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745
Ffacs: 01625 545 510
ebost:mail@ico.gsi.gov.uk

Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud?

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Gwybodaeth am y Coleg, sut y mae'n gweithredu, a gwybodaeth am ei genhadaeth a'i bwerau.</p> <p>Swyddogaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gwaith a'i statws cyfansoddiadol</p> <p>Swyddogaeth y Bwrdd Academaidd a phwyllgorau eraill.</p> <p>Manylion am berthynas y Coleg â chyrrff eraill.</p> <p>Gwybodaeth am staff canolog y Coleg, a manylion cyswllt y Coleg.</p>	<p>Mae'r holl wybodaeth sy'n perthyn i'r categori hwn i'w gael ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>

Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario?

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Cytundeb cyllido rhwng y Cyngor Cyllido Addysg Uwch a'r Coleg.</p> <p>Rheoliadau Ariannol y Coleg.</p>	<p>Ar lein, ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p> <p>Ar lein, ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>

<p>Cyfrifon blynyddol archwiledig.</p>	<p>Mae'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Gorffennaf o 2012 ymlaen yn cynnwys Datganiad o Gyfrifon y Coleg. Bydd fersiwn electronig o'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan y Coleg, a gellir derbyn copi caled o'r Adroddiad ar gais, drwy gysylltu â swyddfa'r Coleg.</p>
<p>Cynlluniau a Chronfeydd Cyllido y Coleg</p>	<p>Mae gwybodaeth lawn am gyfleoedd cyllido a gyfyd drwy gronfeydd a chynlluniau'r Coleg i'w canfod ar wefan y Coleg. Mae gwybodaeth am ddyfarniadau cyllid yn cael eu cyhoeddi ar ffurf cylchlythyron, sydd i'w canfod ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>

Beth yw ein blaenoriaethau a sut ydym yn perfformio?

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Cynllun Strategol y Coleg</p>	<p>Bydd Cynllun Strategol y Coleg ar gyfer 2011/12 hyd 2013/14 ar gael ar wefan y Coleg o fis Hydref 2011 (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>
<p>Adroddiad Blynyddol y Coleg</p>	<p>Bydd y Coleg yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol bob mis Gorffennaf o 2012 ymlaen. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan y Coleg, a gellir derbyn copi caled o'r adroddiad ar gais.</p>

Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau?

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr</p>	<p>Ac eithrio gwybodaeth a gaiff ei hystyried yn breifat i'r cyfarfod, caiff agendâu a phapurau'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan y Coleg cyn pen chwe wythnos ar ôl y cyfarfod. Bydd cofnodion y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Coleg wedi iddynt gael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>
<p>Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a phwyllgorau sefydlog eraill.</p>	<p>Ac eithrio gwybodaeth a gaiff ei hystyried yn breifat i'r cyfarfod, caiff agendâu, a phapurau'r Bwrdd Academaidd, a phwyllgorau sefydlog eraill y Coleg eu cyhoeddi ar wefan y Coleg cyn pen chwe wythnos ar ôl y cyfarfod. Bydd cofnodion y Bwrdd Academaidd, a phwyllgorau sefydlog eraill y Coleg yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Coleg wedi iddynt gael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r pwyllgor sefydlog (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>

Ein polisiau a'n gweithdrefnau

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Protocolau, polisiau a gweithdrefnau cyfredol.</p>	<p>Mae modd gweld polisiau a gweithdrefnau'r Coleg ar ein gwefan www.colegcymraeg.ac.uk.</p> <p>Mae'n bosibl mai dim ond ar ffurf copi caled y mae rhai dogfennau i'w cael, a gellir derbyn copïau ar gais, drwy gysylltu â swyddfa'r Coleg.</p>
<p>Polisi recriwtio a gwybodaeth am swyddi gwag.</p>	<p>Bydd gwybodaeth am gyfleoedd swyddi a gyfyd o fewn y Coleg, yn ymddangos ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>

Rhestrau a Chofrestrau

Enghreifftiau o wybodaeth	Ble y mae dod o hyd iddi?
<p>Cofrestr Buddiannau'r Cyfarwyddwyr</p>	<p>Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfarwyddwyr y Coleg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg gynnal a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau'r Cyfarwyddwyr. Mae'r gofrestr gyfredol i'w gweld ar wefan y Coleg. (www.colegcymraeg.ac.uk)</p>

Log datgelu	Mae'r Log Datgelu yn rhoi manylion y wybodaeth a gaiff ei rhyddhau mewn ymateb i geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Cyhoeddir y gofrestr ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk)
-------------	---

Y gwasanaethau a gynigir

Enghreifftiau o wybodaeth sydd ar gael	Ble y mae dod o hyd iddi?
Gwybodaeth i Fyfirwyr a Darpar-Fyfirwyr / Disgyblion Ysgol.	Mae'r Coleg yn darparu gwybodaeth i fyfirwyr, a darpar-fyfirwyr / disgyblion ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am ysgoloriaethau'r Coleg ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).
Gwybodaeth i fyfirwyr prifysgol	Mae'r Coleg yn darparu gwybodaeth i fyfirwyr prifysgol ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).
Cylchlythyron y Coleg	Mae cylchlythyron y Coleg yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk). Mae'r cylchlythyron yn ymwneud yn bennaf â pherthynas y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch ac yn cynnwys manylion am y grantiau a gynigir gan y Coleg ayyb.

<p>Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau</p>	<p>Ceir adran newyddion ar wefan y Coleg sy'n cynnwys datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau, ynghyd ag archif o hen ddatganiadau (www.colegcymraeg.ac.uk/cy/newyddion).</p>
<p>Calendr digwyddiadau</p>	<p>Mae calendr digwyddiadau a chyfarfodydd y Coleg i'w ganfod ar wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk).</p>